**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol**

**Sir Gaerfyrddin**

**Dydd Mercher 15 Ionawr 2025**

**Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Tre Ioan - 3pm**

**Yn Bresennol:** **Aelodau**:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol
Richard Leggett (RL)
Phil Snaith (PS)
Sean Brown (SB)
Jillie Gardner (JG)
David Gravelle (DG)
Wyn Owen (WO)
Dai Stacey (DS)
Peter Griffiths (PG)

**Ysgrifennydd** **-** Caroline Ferguson (CF) – Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin

**Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd:**
Alex Morgan (AM) – Swyddog Prosiect Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin

**Ymddiheuriadau:** **Aelodau**:

Karen Burch (KB)
Mo Rapley (MR)
Tara Sutcliffe (TS)

Nodyn:
Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin ac mae HTC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Hawliau Tramwy Cyhoeddus.
Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru.
Mae LlC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Llywodraeth Cymru.

| EITEM | CAMAU GWEITHREDU |
|---|---|
| **Eitem 1 - CROESO AC YMDDIHEURIADAU**<br><br>Croesawodd MH y fforwm.<br><br>Darllenodd MH / CF yr ymddiheuriadau a oedd wedi dod i law.<br><br>Roedd 9 aelod yn bresennol. | |
| **<u>Eitem 2 – DIWEDDARIAD AR STRATEGAETHAU/ADRODDIADAU SYDD AR Y GWEILL</u>**<br><br>CF – mae adroddiad wedi'i baratoi ar gyfer y Strategaeth Farchogaeth. Aros am ddyddiad i'r adroddiad fynd drwy gam cyntaf y broses gymeradwyo.<br><br>Nid yw Adroddiad Blynyddol y Fforwm na'r Adolygiad Canol Tymor CGHT wedi'u cymeradwyo eto. Nid yw'n eglur faint o gymeradwyaeth fydd gan y Cyngor o fewn yr adran newydd. Aros am gyngor.<br><br>Bydd MH yn ysgrifennu at Benaethiaid Gwasanaeth i gyflymu'r wybodaeth a'r amserlennu angenrheidiol i sicrhau bod dogfennau amrywiol yn cael eu cymeradwyo a'u mabwysiadu. | MH |
| **<u>Eitem 3 – DIWEDDARIAD YNGHYLCH PROSIECTAU</u>**<br><br>Rhoddodd AM ddiweddariad i'r grŵp.<br><br>**2024-25**<br>- Prosiect gwella HTC Llansadwrn wedi'i gwblhau.<br>- Mae synwyryddion HTC a ariannwyd gan y Grant Gwella Mynediad* wedi'u prynu a'u gosod i fonitro llwybrau a nodwyd yn wreiddiol i'w monitro. Mae'r synwyryddion yn symudol a gellir eu symud i leoliadau newydd yn y dyfodol yn ôl yr angen.<br>- Rhaglen arwyddbyst yn parhau.<br>- Bydd gwelliannau i Lwybr Arfordir Cymru a ffilmio ar gyfer Google Streetview, a ariannwyd gan CNC, wedi'u cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.<br><br>**2025-26**<br>- Sicrhawyd Grant Hygyrchedd y Cerddwyr i wella 2 HTC yn Llandeilo.<br>- Mae'r Grant Gwella Mynediad a chyllid Lotto, gyda'i gilydd, wedi sicrhau Swyddog Prosiect Gwirfoddoli tan fis Tachwedd 2026. Gwnaed cryn ymdrech i geisio cyllid priodol, sy'n cydnabod y budd o gael cydgysylltydd gwirfoddoli penodol.<br>- Mae cyllid parhaus y Grant Gwella Mynediad wedi'i gadarnhau. Nid yw'r swm wedi'i gyhoeddi.<br><br>* Grant Gwella Mynediad<br><br>Holodd RL ynghylch y posibilrwydd o gael byrddau dehongli mewn ardaloedd prosiect, a'u gwerth.<br><br>CF - Mae costau cynnal a chadw ac ailosod parhaus wedi bod yn faich yn hanesyddol. | |

| | |
|---|---|
| RL – A fyddai'n bosibl i'r Cyngor Cymuned fabwysiadu'r paneli?<br><br>AC – Rhywbeth i'w ystyried wrth gynllunio prosiectau yn y dyfodol. | |
| **Eitem 4 – YMGYNGHORIADAU**<br><br>i) Gorchymyn Llwybrau Beicio CSC<br><br>Dim sylwadau i'w nodi. Y farn gyffredinol yw bod yr ymarfer ymgynghori wedi bod yn drylwyr. Mae'n werth tynnu sylw at bwysigrwydd amseru ymgynghoriadau i sicrhau bod cynifer â phosibl o aelodau o'r cyhoedd yn cymryd rhan.<br><br>ii) Gwelliannau Teithio Llesol Llanymddyfri<br><br>Roedd y grŵp yn cwestiynu gwerth rhoi seilwaith teithio llesol ar waith yn Llanymddyfri. Ymddengys nad yw trigolion lleol yn Llanymddyfri yn gweld gwerth y cynigion. Mae mwy o werth teithio llesol i'w gael mewn ardaloedd trefol.<br><br>PS – Mae'r darlun o ran teithio llesol yn newid, gyda gostyngiad sylweddol yn y cyllid sydd ar gael.<br><br>Bydd MH yn rhoi ymateb y Fforwm Mynediad Lleol mewn perthynas â Llanymddyfri, gan adlewyrchu barn y grŵp. | |
| **Eitem 5 – ADRODDIADAU PERFFORMIAD MYNEDIAD I GEFN GWLAD**<br><br>Amlinellodd CF yr adroddiadau newydd. Maent yn cofnodi mwy o ddata ac yn cynnwys llawer o wybodaeth newydd i'r Fforwm Mynediad Lleol. Dylent roi darlun mwy cyflawn o berfformiad ym mhob agwedd ar reoli hawliau tramwy cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin. Roedd yr adroddiadau blaenorol yn canolbwyntio ar faterion yn unig (wedi'u hadrodd/datrys).<br><br>Gwnaeth yr aelodau nifer o sylwadau ynghylch egluro data. Bydd CF yn derbyn sylwadau ar yr adroddiadau newydd hyd at bythefnos cyn y cyfarfod nesaf fel y gellir cynnwys gwelliannau/eglurhad yn yr ail adroddiad.<br><br>RL – awgrymu adolygiad ffurfiol ar ôl blwyddyn o adrodd i bennu tueddiadau a defnyddioldeb y data a gyflwynir.<br><br>Cytunodd pawb a oedd yn bresennol. | |

| | |
|---|---|
| **Eitem 6 – TRETH DWRISTIAETH CYMRU**<br><br>Eglurodd MH nad yw penderfyniad Llywodraeth Cymru wedi'i wneud eto ar dreth dwristiaeth Cymru.  Os caiff ei chymeradwyo, cynhelir ymgynghoriad.<br><br>Dyfyniad Cefin Campbell, "mae twristiaeth yn tynnu adnoddau o'r economi leol."<br><br>Gall treth dwristiaeth Cymru orfodi busnesau i fuddsoddi'n lleol, a gellid clustnodi arian ar gyfer buddsoddiad lleol mewn adnoddau a ddefnyddir ar gyfer twristiaeth, fel hawliau tramwy cyhoeddus. | |
| **Eitem 7 – EFFAITH STORMYDD AR HTC**<br><br>CF – Mae'r goblygiadau o ran cynnal a chadw HTC wedi bod yn sylweddol, gan fod galw am glirio coed yn ddyddiol ers 9 Rhagfyr 2024.<br><br>MH – Mae stormydd wedi bod yn drychinebus i Ystâd Goedwigaeth Llywodraeth Cymru. Mae ardaloedd helaeth o goed wedi'u chwythu gan y gwynt ar draws coedwigoedd a reolir gan CNC, sy'n effeithio ar y rhan fwyaf o hawliau tramwy cyhoeddus yn yr ystâd.<br><br>Mae digwyddiadau ym Mharc Gwledig Pen-bre wedi'u canslo.<br><br>RL – Mae difrod yn cael ei achosi'n amlach gan stormydd oherwydd tywydd eithafol ac oedran y boblogaeth goed.<br><br>DS – Mae'r math o goed sy'n cael eu plannu mewn planhigfeydd a chyfundrefnau cwympo coed yn dylanwadu ar fregusrwydd coed.<br><br>Efallai y bydd y Gronfa Difrod Storm mewn argyfwng yn gallu cynorthwyo yn y dyfodol o ran effaith ariannol difrod stormydd ar draws y rhwydwaith HTC ac o bosibl safleoedd eraill â mynediad cyhoeddus. | |
| **Eitem 8 – TYMOR Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL NESAF, AMSERLEN RECRIWTIO**<br><br>Amlinellodd CF y bwriad i ddechrau hyrwyddo recriwtio ddechrau mis Chwefror 2025 am 6 wythnos.<br><br>Dewisir aelodau ddiwedd mis Mawrth 2025 a chynhelir cyfarfod cychwynnol y Fforwm Mynediad Lleol newydd ganol mis Ebrill 2025.<br><br>Bydd y cyfarfod yn cynnwys ethol Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd newydd. | |
| **Eitem 9 – CAMAU YN CODI O GOFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**<br><br>Eitem 4 – Prosiect gwirfoddoli.<br>Nid yw MH wedi ysgrifennu at Idox eto ynghylch perfformiad CAMSWeb a'i effaith ar ymgysylltu â gwirfoddolwyr.<br>Mae angen gwybod beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran perfformiad CAMSWeb.<br>CF i drafod perfformiad CAMSWeb gyda'r swyddog prosiect gwirfoddoli. | CF |

| | |
|---|---|
| **<u>Eitem 10 – UNRHYW FUSNES CYMWYS ARALL</u>**<br><br>Dim byd wedi'i gofnodi. | |